Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Tachwedd 2021

Amser: 09.01 – 12.50

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12480

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Russell George AS (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AS Gareth Davies AS Mike Hedges AS Jack Sargeant AS Joyce Watson AS
Tystion:	Yr Athro Peter Saul, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Helen Whyley, Llywodraeth Cymru Judy Thomas, Fferylliaeth Gymunedol Cymru Elen Jones, Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru Yr Athro Euan Hails, Hafal Simon Jones, Mind Cymru
Staff y Pwyllgor:	Helen Finlayson (Clerc) Claire Morris (Ail Glerc)

	Lowri Jones (Dirprwy Glerc) Sarah Hatherley (Ymchwilydd) Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) Sara Moran (Ymchwilydd) Lucy Valsamidis (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Datganodd Joyce Watson MS fod aelod agos o'r teulu yn aelod o'r Coleg Nyrsio Brenhinol.

2 Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth: sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau gofal cychwynnol

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr sefydliadau gofal sylfaenol.

2.2 Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r tystion mai dyma oedd diwrnod olaf yr Athro Peter Saul yn ei dymor tair blynedd fel cyd-gadeirydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, a dymunodd yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

3 Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth: sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau iechyd meddwl a chymorth seicolegol

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr sefydliadau iechyd meddwl a chymorth seicolegol.

3.2 Datganodd Rhun ap Iorwerth MS mai ef yw cyd-gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol Covid Hir.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Cadeirydd ynghylch y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd

4.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4.2 Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidogion gyda chwestiynau dilynol o'r sesiwn graffu gyffredinol ar 23 Medi 2021

4.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4.3 Ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cwestiynau dilynol o'r sesiwn graffu gyffredinol ar 23 Medi 2021

4.3 Nododd Mike Hedges MS nad oedd yn fodlon â'r ymateb ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cwestiwn a gododd ynghylch a oedd awdurdodau lleol yn gwario eu hasesiadau gwariant safonol a'u gwariant.

4.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Cadeirydd ynghylch y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl: Adroddiad Blynyddol 2020-21

4.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4.5 Llythyr gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol at y Cadeirydd ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal

4.5 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4.6 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

4.6 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

4.7 Ymateb gan y Cadeirydd i'r llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23

4.7 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

4.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y DU/y Swistir: Confensiwn ar gydgysylltu nawdd cymdeithasol

4.8 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

6 Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gymerwyd a nododd faterion i'w codi mewn tystiolaeth yn y dyfodol ac allbynnau'r Pwyllgor.

7 Strategaeth Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Chweched Senedd

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddogfen strategaeth yn amodol ar fân ychwanegiadau a gofynnodd i swyddogion baratoi fersiwn o'r strategaeth i'w chyhoeddi.

8 Fframweithiau cyffredin: ystyried y dull gweithredu

8.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i ofyn am wybodaeth ychwanegol i lywio ei waith craffu ar y Fframwaith Cyffredin Diogelu Iechyd y Cyhoedd a Diogelwch Iechyd.

9 Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021 i 2022 Llywodraeth Cymru: ystyried y dull gweithredu

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull gweithredu a awgrymwyd.